***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 202

## Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017

## RHAN 3

### Rhedeg Practis Deintyddol Preifat

### PENNOD 4

### Hysbysiadau sydd i Gael eu Rhoi i'r Awdurdod Cofrestru

**Hysbysu am ddigwyddiadau**

**25.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig roi hysbysiad i swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny—

(a) am farwolaeth claf neu unrhyw anaf difrifol i glaf—

(i) yn ystod triniaeth a ddarperir yn, neu at ddibenion, y practis deintyddol preifat;

(ii) o ganlyniad i driniaeth a ddarperir yn y practis deintyddol preifat; neu

(iii) sydd fel arall ar fangre'r practis deintyddol preifat;

(b) am achos o unrhyw glefyd heintus sydd, ym marn unrhyw ddeintydd neu broffesiynolyn gofal deintyddol sy'n gweithio yn y practis, yn ddigon difrifol i roi hysbysiad yn ei gylch felly; neu

(c) am unrhyw honiad o gamymddwyn sy'n arwain at niwed gwirioneddol neu niwed posibl i glaf gan y person cofrestredig neu unrhyw berson a gyflogir yn, neu at ddibenion, y practis deintyddol preifat.

(2) Yn achos marwolaeth claf, rhaid i'r person cofrestredig hefyd hysbysu'r awdurdod cofrestru am ddyddiad, amser, rheswm (pan fo'n hysbys) ac amgylchiadau marwolaeth y claf.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig gadw cofnod ysgrifenedig diogel o'r holl ddigwyddiadau a restrir yn is-baragraffau (a) i (c) o baragraff (1).